Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Llunio dyfodol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg/
This document is available in English

# Contents

Crynodeb Gweithredol .................... 3
Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt .................... 6
Cyflwyniad .................... 7
Gweledigaeth a Nodau .................... 9
Y Camau nesaf .................... 12
Casgliad .................... 14
Cyfeiriadau .................... 15
Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn .................... 15

# Crynodeb Gweithredol

Mae amgylchedd Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd cryf (APHR) yn hanfodol i wella iechyd y boblogaeth, llywio polisi, ysgogi arloesedd a chefnogi twf economaidd yng Nghymru. Er bod gan Gymru hanes ymchwil cryf a chyd-destun polisi cefnogol ar gyfer iechyd y cyhoedd, mae amgylchedd a chapasiti APHR ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu gan gyllid cyfyngedig, gweithgarwch tameidiog, a diffyg gweledigaeth, strategaeth a dylanwad cydlynol ar draws y system ar draws cyllidwyr Cymru a'r DU. Mae hyn yn bygwth twf a chynaliadwyedd ac yn tynnu sylw at botensial sylweddol heb ei ddefnyddio i fynd i'r afael â heriau iechyd y cyhoedd presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg trwy ymchwil a datblygu o ansawdd uchel ac effeithiol.

Nododd Prif Swyddog Meddygol (CMO) Cymru (2023), Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) fod APHR yn faes sy'n wynebu cyfnodau heriol yng Nghymru, ond gyda'r potensial i gael ei gryfhau er budd y boblogaeth.

Er mwyn helpu i lywio dull gweithredu yn y dyfodol, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad cynhwysfawr o dirwedd APHR yng Nghymru, gyda chefnogaeth grŵp llywio ledled y DU. Ym mis Mai 2025 cyhoeddwyd " Optimeiddio *Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru."* Roedd yr adroddiad yn dangos tystiolaeth o'r duedd ariannu ar i lawr, heriau'r gweithlu, a'r risgiau strategol i Gymru. Roedd yr adolygiad yn nodi pedwar argymhelliad allweddol:

1. Datblygu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer APHR
2. Canolbwyntio ar gryfderau ymchwil strategol ac arloesol Cymru
3. Gwella cyllid a phartneriaethau drwy gydweithrediad a chydweithio
4. Cefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr iechyd y Cyhoedd

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen *gweledigaeth unedig i Gymru* i wella cydlyniant, cryfhau cydweithio, a chynyddu effaith ymchwil ar bolisi, canlyniadau iechyd, ac anghydraddoldebau. Argymhellodd yr adroddiad, drwy feddwl yn wahanol, gweithio ar y cyd, a buddsoddi mewn cydlynu strategol, meithrin gallu, a datblygu gyrfaoedd, y gall Cymru greu amgylchedd APHR ffyniannus. Un sy'n darparu manteision mesuradwy i iechyd y boblogaeth, polisi, a'r economi. Er bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ystyried mewn sefyllfa dda i gefnogi cydlynu, rhaid rhannu a hwyluso arweinyddiaeth gyda phartneriaid - ar draws Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, sefydliadau addysg uwch, y GIG, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

## Beth ddigwyddodd nesaf?

Yn 2025, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfres o bum gweithdy ar draws y system i gyd-ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer APHR. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â holl sefydliadau addysg uwch Cymru, Rhwydwaith Arloesi Cymru, Byrddau Iechyd y GIG, llywodraeth leol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector. Lluniodd y mewnwelediadau hyn weledigaeth gyfunol, nodau strategol, egwyddorion a chamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar symud o ddyhead i gyflawni.

## Datblygu gweledigaeth gyfunol ar gyfer Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru

Mae'r weledigaeth a'r nodau strategol canlynol yn disgrifio system ymchwil iechyd y cyhoedd genedlaethol gydlynol, sy'n edrych tuag allan, sy'n cryfhau meysydd rhagoriaeth methodolegol a gallu ymchwil yn y dyfodol (elfennau hanfodol i ategu APHR o ansawdd uchel), yn darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer polisi ac ymarfer, ac yn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, y nod yw gwella gallu Cymru i dyfu a chynnal APH, a chyfraniad Cymru at ymchwil iechyd y cyhoedd yn y DU ac yn fyd-eang gan wella iechyd a thegwch.

## Gweledigaeth Strategol

*“System ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd ddeinamig, arloesol ac yn seiliedig ar gryfderau sy’n meithrin rhagoriaeth a gallu ymchwil yn y dyfodol, ac yn cyflawni effaith weladwy, fesuradwy ar iechyd a thegwch yng Nghymru ac yn fyd-eang.”*

## Nodau Strategol

Cryfhau seilwaith APHR fel galluogwr rhagoriaeth ac effaith ymchwil
Meithrin gallu methodolegol a thechnegol, gyrfaoedd APHR a gwydnwch y gweithlu,
Cyd-greu hunaniaeth genedlaethol gydlynol a llais cyfunol ar gyfer APHR yng Nghymru
Ymgorfforí ymchwil agored, gydweithredol a chyd-gynhyrchedig ar draws y system
Canolbwyntio ar heriau iechyd y cyhoedd y byd go iawn: APHR ymatebol a blaengar.
Gyda'i gilydd, mae'r nodau hyn yn darparu'r sylfeini ar gyfer system APHR sy'n barod ar gyfer y dyfodol ac sy'n gallu bod yn gydweithredol, sy'n cyflawni effaith ac yn gosod Cymru fel amgylchedd ymchwil cystadleuol sy'n perfformio'n dda.

## Y Camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn nodi uchelgais glir, a rennir ar gyfer Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru, wedi'i lunio gan randdeiliaid ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda phartneriaid ledled Cymru a'r DU, ac yn cydnabod nad cyfrifoldeb sefydliad sengl yw cyflawni'r weledigaeth hon ond arweinyddiaeth ar y cyd ar draws y system iechyd y cyhoedd. Bydd cynnydd yn gofyn am gysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a strategaethau ymchwil gwyddor bywyd ehangach y DU, cyllidwyr, mentrau seilwaith ymchwil a llwybrau gyrfa academaidd.

Bwriad y weledigaeth hon yw darparu pwynt cyfeirio cyffredin i gefnogi deialog, gweithio mewn partneriaeth a datblygiad system ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yng Nghymru yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar heriau iechyd y cyhoedd y byd go iawn a budd mesuradwy i Gymru.  Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth ac eiriolaeth genedlaethol, ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y byd academaidd a phartneriaid eraill. Bydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt a hwyluso canolog ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yng Nghymru trwy ei Swyddfa Ymchwil a Datblygu.

# Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt

Mae'r cyhoeddiad hwn yn deillio o ymdrech ar y cyd. Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru gydnabod y gwaith a wnaed gan y Swyddfa Ymchwil a Datblygu a'r Tîm Partneriaethau Ymchwil.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiolchgar am y cyngor arbenigol, y cyfraniadau a'r cymorth a ddarparwyd gan lawer o bobl drwy gydol y prosiect hwn. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys y Rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Weledigaeth a'r Strategaeth.

# Gweledigaeth Gyffredin ar gyfer Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae amgylchedd Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd (APHR) cryf yn hanfodol i wella iechyd y boblogaeth, ysgogi arloesedd a chefnogi twf economaidd. Mae gan Gymru dreftadaeth ymchwil iechyd y cyhoedd gyfoethog a chyd-destun polisi cefnogol, ond mae heriau strwythurol ar hyn o bryd yn cyfyngu ar botensial llawn y system. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid cyfyngedig, gweithgarwch tameidiog, a diffyg gweledigaeth a strategaeth gydlynol ar draws y system sydd â dylanwad ar draws cyllidwyr Cymru a'r DU. Heb weithredu, mae hyn mewn perygl o danseilio twf a chynaliadwyedd yn y dyfodol, er gwaethaf potensial sylweddol heb ei ddefnyddio i fynd i'r afael â heriau iechyd y cyhoedd presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg trwy ymchwil a datblygu o ansawdd uchel ac effeithiol.

Nododd Prif Swyddog Meddygol (CMO) Cymru (2023), Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) fod APHR yn faes sy'n wynebu cyfnodau heriol yng Nghymru, ond gyda'r potensial i gael ei gryfhau er budd y boblogaeth. Er mwyn helpu i lywio dull gweithredu yn y dyfodol, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad cynhwysfawr o dirwedd APHR yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad desg, cyfweliadau â rhanddeiliaid, a mewnbwn gan Grŵp Llywio Cymru a phanel arbenigol ledled y DU. Wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2025, tynnodd yr *adroddiad* 'Optimeiddio Ymchwil Academaidd Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru' sylw at gryfderau sylweddol a heriau system gyfan ar gyfer APHR.

Mae Cymru’n elwa ar asedau data cysylltiedig cyfoethog, cysylltiadau cryf rhwng y byd academaidd, polisi ac ymarfer, a chymuned ymchwil ymroddedig. Fodd bynnag, mae ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yng Nghymru yn wynebu cyfnod o her sylweddol gyda gweithlu sy'n lleihau, erydiad swyddi academaidd iechyd y cyhoedd, llwybrau gyrfa aneglur, a risgiau y bydd ymchwilwyr yn cael eu denu i ganolfannau mewn mannau eraill. Mae hyn yn cael ei waethygu gan ostyngiad parhaus mewn cyllid ymchwil iechyd y cyhoedd i Gymru, seilwaith tameidiog, a gwelededd cenedlaethol a rhyngwladol cyfyngedig.

Yng nghyd-destun canlyniadau iechyd sy'n gwaethygu ac anghydraddoldebau sy'n ehangu, mae'r tueddiadau hyn yn cynrychioli mwy na her ddatblygiadol – maent hefyd yn arwydd o risg strategol bosibl i iechyd, twf economaidd a gwydnwch cenedlaethol Cymru. Nododd rhanddeiliaid fod diffyg gosod blaenoriaethau cydlynol ac arweinyddiaeth ar draws y system yn rhwystr allweddol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen gweledigaeth genedlaethol unedig i gryfhau cydlynu, cydweithio a datblygu capasiti ymchwil iechyd y cyhoedd yng Nghymru sy'n cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer atal, tegwch a pholisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

# Gweledigaeth a Nodau

## Gweledigaeth Strategol

*"System ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd ddeinamig, arloesol ac yn seiliedig ar gryfderau sy'n meithrin rhagoriaeth a gallu ymchwil yn y dyfodol, ac yn cyflawni effaith weladwy, fesuradwy ar iechyd a thegwch yng Nghymru ac yn fyd-eang."*

## Nodau Strategol

1. **Cryfhau seilwaith APHR fel galluogwr rhagoriaeth ac effaith ymchwil**

Mae Cymru'n cael ei chydnabod fel lle y gellir cyflawni ymchwil iechyd y cyhoedd o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bolisi yn effeithlon ac ar raddfa fawr, ac mae seilwaith ymchwil yn cefnogi'r broses o'i throsi'n bolisi ac ymarfer yn weithredol. Mae seilwaith data, digidol, llywodraethu a sefydliadol yn lleihau darnio, yn galluogi cydweithio cyflym, ac yn cefnogi ymgysylltiad â phartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol.

Llwyddiant: Adeiladu consortiwm yn gyflymach, cael mynediad effeithlon at ddata a chyllid, a throsi ymchwil yn bolisi ac ymarfer yn gryfach.

2. **Meithrin gallu methodolegol a thechnegol, gyrfaoedd APHR a gwydnwch y gweithlu**

Mae gan Gymru weithlu ymchwil iechyd y cyhoedd rhyngddisgyblaethol, gwydn sydd ag arbenigedd eang a dwfn. Mae cyfle clir i gysylltu sgiliau methodolegol a thechnegol yn well ag arbenigedd ym maes iechyd y cyhoedd er mwyn adeiladu gyrfaoedd APHR cynaliadwy a rhyngddisgyblaethol. Byddai ecosystem ymchwil mwy integredig - sy'n cysylltu cryfderau mewn gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiad, economeg iechyd, gwyddor data a deallusrwydd artiffisial, dadansoddi uwch, dulliau geo-ofodol, cyfosod tystiolaeth, a dulliau cyfranogol a systemau gydag arbenigedd ar draws microbioleg, genomeg, epidemioleg, atal, iechyd meddwl, penderfynyddion cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, ac iechyd hinsawdd a'r blaned - yn galluogi APHR cadarn ac ymatebol sy'n gallu mynd i'r afael â heriau iechyd y cyhoedd cymhleth a rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Llwyddiant:** Llwybr gyrfa APHR sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, ac ecosystem sy'n cefnogi gweithlu gwydn a medrus, gyda'r gallu i ymateb yn gyflym i heriau iechyd y cyhoedd cymhleth a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae llwybrau academaidd clir (MSc, Doethuriaeth, Ôl-ddoethurol, Cymrodyr ac ati), a swyddi ar y cyd yn cefnogi ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n llywio polisi ac ymarfer.

3. **Cyd-greu hunaniaeth genedlaethol gydlynol a llais cyfunol ar gyfer APHR yng Nghymru**

Sefydlu hunaniaeth APHR weladwy ac adnabyddadwy i Gymru i gryfhau cydweithio - yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, cysylltu a chydweithio â'r arbenigedd cywir yn gyflym ac yn hyderus. Bydd hyn yn cynyddu effaith, yn cryfhau eiriolaeth, yn denu talent, ac yn gosod Cymru fel partner ac
arweinydd credadwy mewn ymchwil iechyd y cyhoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Llwyddiant: Cydweithio trawsddisgyblaethol cryfach a mynediad ehangach at gyllid cynghorau ymchwil, llwybrau gyrfa cynaliadwy APHR, a rhagor o gydnabyddiaeth genedlaethol a byd-eang o gryfderau ymchwil Cymru.

4. **Ymgorffori ymchwil agored, gydweithredol a chyd-gynhyrchedig ar draws y system**

Ymgorffori partneriaethau ystyrlon a chyd-greu gyda chymunedau, gwasanaethau a sefydliadau trydydd sector fel ffordd graidd o weithio ar draws cylch bywyd yr ymchwil gan sicrhau bod llais y cyhoedd, profiad bywyd a mewnwelediad i wasanaethau yn llywio blaenoriaethau ymchwil, dylunio, cyflwyno a throsi'n ymarfer.

Llwyddiant: Mae blaenoriaethau ymchwil yn adlewyrchu profiad bywyd ac anghenion y system, gyda thystiolaeth yn cael ei mabwysiadu'n haws mewn polisi ac ymarfer.

5. **Canolbwyntio ar heriau iechyd y cyhoedd y byd go iawn: APHR ymatebol ac edrych ymlaen**

Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o APHR yng Nghymru a'i gyfraniad at wella iechyd, cryfhau twf economaidd a chydnerthedd cenedlaethol, mae angen dull cyfunol a blaenoriaethol. Yn hytrach nag ymdrechion gwasgaredig ar draws sawl agenda, y weledigaeth yw i APHR yng Nghymru ganolbwyntio ar nifer fach o heriau iechyd y cyhoedd go iawn sydd wedi'u diffinio'n glir lle mae gan Gymru gryfderau presennol neu sy'n dod i'r amlwg, lle mae llwybrau ariannu cynaliadwy yn ymarferol, a lle mae gan gamau cydlynol y potensial mwyaf i gyflawni effaith fesuradwy ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru dros y 2-5 mlynedd nesaf.

Darperir y meysydd heriau critigol iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg o'r gweithdai cydweithredol ym Mlwch 1. Dyma feysydd dangosol a fyddai'n cael eu harchwilio ymhellach gyda phartneriaid ar draws y system i gyrraedd consensws ar yr heriau iechyd y cyhoedd i Gymru.

**Llwyddiant:** Ymdrech system gydlynol yn canolbwyntio ar feysydd â'r potensial mwyaf i gael effaith, gan alluogi symud arbenigedd yn gyflym mewn ymateb i fygythiadau a phwysau sy'n dod i'r amlwg, ac ysgogi arloesedd, dulliau newydd a datrysiadau traws-sector i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

**Blwch 1. Ffocws ar heriau iechyd y cyhoedd y byd go iawn**

**Meysydd dangosol o gryfder a ffocws** (i'w datblygu ymhellach):

1. Newid hinsawdd, Iechyd Cyfunol ac iechyd y cyhoedd amgylcheddol
2. Genomeg a chlefydau heintus
3. Mannau iach / amgylcheddau adeiledig a naturiol (trefol a gwledig)
4. Iechyd meddwl a llesiant cymunedol
5. Dyfodol iechyd y cyhoedd: digidol, data a deallusrwydd artiffisial a gwyliadwriaeth

**Rhaid i bob blaenoriaeth thematig:**

- Cael ei ddatblygu drwy lens cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cysylltu â blaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r brifysgol
- Ymgorffori llais y gymuned
- Ategu a llywio strategaethau cenedlaethol presennol a rhai'r dyfodol ar gyfer iechyd

Mae'r weledigaeth a'r nodau strategol yn nodi system ymchwil iechyd y cyhoedd genedlaethol gydlynol, sy'n wynebu'r tu allan, sy'n cryfhau rhagoriaeth fethodolegol a gallu yn y dyfodol, yn darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer polisi ac ymarfer, ac yn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, maent yn gwella gallu Cymru i dyfu a chynnal APHR ac i gyfrannu'n ystyrlon at ymchwil iechyd y cyhoedd yn y DU ac yn fyd-eang sy'n gwella iechyd a thegwch.

# Y Camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn darparu datganiad clir o uchelgais sydd wedi'i lunio ar y cyd gan randdeiliaid ac yn darparu pwynt cyfeirio cyffredin i arwain datblygiad, cydweithio a deialog yn y dyfodol ar draws system ymchwil iechyd y cyhoedd.

Nid cyfrifoldeb sefydliad sengl yw cyflawni'r weledigaeth hon - bydd angen cysylltu â llawer o ffactorau er mwyn sicrhau cynnydd, gan gynnwys cyllidwyr, y byd academaidd, strategaethau iechyd a gwyddor bywyd Llywodraeth Cymru a'r DU yn ehangach, mentrau seilwaith ymchwil, a llwybrau gyrfa academaidd.

Er mwyn parhau â'r momentwm tuag at y weledigaeth hon, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

- Darparu arweinyddiaeth system ac eiriolaeth ar gyfer Gweledigaeth APHR i Gymru ar lefelau cenedlaethol, DU a rhyngwladol.
- Nodi meysydd cryfder technegol a blaenoriaethau iechyd y cyhoedd y byd go iawn ar gyfer APHR, ac adeiladu ar y rhai a nodwyd yn wreiddiol (blwch 1).
- Nodi, cynnal a chyhoeddi blaenoriaethau ymchwil iechyd y cyhoedd sydd wedi'u halinio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Nodi amcanion strategol, i lywio trafodaethau gyda phartneriaid academaidd strategol, a Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac arianwyr eraill yn y DU.
- Cynnal Cynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru flynyddol fel platfform cenedlaethol ar gyfer gwelededd, cydweithio ac effaith.
- Cynnal pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd drwy Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd y Cyhoedd, ac yn cefnogi ymgysylltiad, llywio a phartneriaeth ar draws y system.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i lywio a datblygu strategaethau ymchwil, arloesi a gwyddorau bywyd iechyd y cyhoedd cenedlaethol mewn perthynas ag iechyd ac iechyd y cyhoedd; ac i gryfhau safle Cymru gyda chyllidwyr ledled y DU a mentrau ymchwil strategol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried modelau cyllido cynaliadwy, llwybrau gyrfa academaidd, a mecanweithiau i wella cystadleurwydd Cymru ar gyfer rhaglenni ymchwil mawr.

Gan adeiladu ar y cydweithio cryf a luniodd y weledigaeth gyfunol hon, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid system ehangach i drosi uchelgais yn gamau cydlynol ac effaith fesuradwy.

Gyda'n gilydd, byddwn yn archwilio cydlynu a mecanweithiau a rennir ar gyfer trosolwg a all ysbrydoli, cefnogi gweithredu a chynnal cynnydd dros amser. Meysydd ar gyfer gwaith pellach a nodwyd trwy ddatblygu'r weledigaeth hon yw:

## 1. Arweinyddiaeth Genedlaethol ac Eiriolaeth Strategol

Darparu arweinyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol weladwy ar gyfer Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Academaidd yng Nghymru, a chysylltu a chyhoeddi blaenoriaethau ymchwil ag amcanion polisi strategol, a gweithredu fel y pwynt cydlynu a mynediad canolog drwy'r Swyddfa Ymchwil a Datblygu.

## 2. Ffocws ar Heriau Iechyd y Cyhoedd y Byd go Iawn

Nodi meysydd heriau iechyd y cyhoedd blaenoriaethol yn y byd go iawn lle mae ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yn cynnig y budd posibl mwyaf i Gymru, a datblygu a symud cydweithio academaidd ledled Cymru o amgylch y meysydd hyn er mwyn sicrhau cyfleoedd ariannu strategol, a chysylltu cryfderau systemau â blaenoriaeth polisi a llwybrau ariannu cynaliadwy.

## 3. Llywodraethu a Goruchwyliaeth ar y Cyd

Sefydlu Grŵp Llywio Iechyd y Cyhoedd Academaidd Cenedlaethol traws-sector i ddarparu goruchwyliaeth strategol, gosod blaenoriaethau a llywodraethu clir, wedi'i gefnogi gan adrodd ar lefel system a chynlluniau gweithredu wedi'u blaenoriaethu gyda chylchoedd perchnogaeth ac adolygu wedi'u diffinio.

## 4. Seilwaith Cydlynu (Model Hwb)

Sefydlu Hwb Cydlynu ysgafn i gysylltu arbenigedd, cefnogi cyd-greu, ysgogi cyllid cydweithredol a gwella gwelededd cenedlaethol, ochr yn ochr â mapio seilwaith presennol, nodi bylchau a datblygu model adnoddau cynaliadwy, nad yw'n dyblygu

## 5. Gweithredu Graddol a Chymesur

Cyflawni fesul cam drwy flaenoriaethu camau gweithredu o fewn y capasiti presennol, nodi meysydd sydd angen buddsoddiad ychwanegol, canolbwyntio ar weithgarwch effaith uchel, a sicrhau adnodd cydlynu pwrpasol i osgoi darnio.

## Casgliad

Bwriad y weledigaeth hon yw darparu pwynt cyfeirio cyffredin ar gyfer datblygiad APHR yng Nghymru yn y dyfodol. Y bwriad yw ysgogi deialog, cryfhau perthnasoedd a chefnogi dysgu ar y cyd ar draws y system, a chreu'r amodau ar gyfer rhagor o gydlyniant, cydweithio ac effaith dros amser.

Er nad ymrwymiad ffurfiol mohono, mae'r weledigaeth hon yn darparu platfform a rennir i arwain meddwl yn y dyfodol, cyfeiriad strategol a buddsoddiad a gweithio mewn partneriaeth, sy'n galluogi datblygiad system APHR fwy cysylltiedig, rhyngddisgyblaethol, gynaliadwy ac effeithiol i Gymru.

# Cyfeiriadau

Optimeiddio Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru (Cyhoeddwyd Mai 2025)

# Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn

Caniateir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales

© 2026 Public Health Wales NHS Trust
Terms of Use
ISBN 978-1-83766-891-5